

Bwrdd Cyngtori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru

**27 Ebrill 2016, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Llandrindod**

Cofnodion

Aelodau

Michael Prior (MP)	Cadeirydd Annibynnol
Y Cyngorydd Tudor Owen (TO)	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Y Cyngorydd Sylvia Jones (SJ)	Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Sean Starbuck (SS)	Undeb y Brigadau Tân
Grant Mayos (GM)	Undeb y Brigadau Tân, Aelod Gweithredol o'r Cyngor dros Gymru
Paul Scott (PS)	Cymdeithas Swyddogion Tân

Swyddogion presennol

Dawn Docx (DD)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Liz Aitken (LA)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)

Steve Pomeroy (SP)	Y Gangen Gwasanaethau Tân
Kerry Citric (KC)	Y Gangen Gwasanaethau Tân
Cerys Myers (CM)	Y Gangen Gwasanaethau Tân

Ymddiheuriadau

Phil Haynes	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Y Cyngorydd Wynne Evans	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huw Jakeway	Cymdeithas Prif Swyddogion Tân
Adrian Hughes	Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn

EITEM 1 AR YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNIADAU

1. Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod a rhoddodd groeso cynnes i Sean Starbuck a oedd yn mynychu am y tro cyntaf. Nododd MP fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Phil Haynes, Huw Jakeway a'r Cyngorydd Wynne Evans.

2. Hysbysodd MP y Bwrdd fod Helen Griffiths wedi gadael y Gangen Gwasanaethau Tân a chyflwynodd Kerry Citric, sydd wedi ymgymryd â'r rôl, gyda chefnogaeth Cerys Myers a Natalie Spiller sydd hefyd wedi ymuno â'r tîm. Dywedodd Liz Aitken y byddai'n cynrychioli Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn absenoldeb y Cyngorydd Wynne Evans, a Chymdeithas y Prif

Swyddogion Tân yn absenoldeb Huw Jakeway. Darparwyd cyflwyniadau o gwmpas y bwrdd.

3. Cadarnhaodd aelodau nad oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau i'w datgelu.

EITEM 2 AR YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4. Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd a gwahoddodd aelodau i gytuno ar gywirdeb y cofnodion. Nododd LA fod y gair 'partneriaeth' wedi'i hepgor o Baragraff 20. Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau pellach a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

AGENDA 3 AR YR EITEM – MATERION SY'N CODI

5. Cyfeiriodd KC at FPSABW(16)01 ac eglurodd y byddai diweddariad am y camau yn erbyn y diwygiadau arfaethedig i'r cynllun a'r adborth gan y Byrddau Pensiwn Lleol yn cael eu trafod ar yr agenda.

6. Dywedodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymholiad mewn perthynas â threuliau aelodau a chadarnhaodd y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub dalu'r costau. Eglurodd LA fod yr ymholiad cychwynnol mewn perthynas â chostau gweinyddu a chostau llywodraethu sy'n gysylltiedig â Bwrdd Cyngori'r Cynllun a Byrddau Pensiwn Lleol, nid treuliau aelodau yn unig. Cyfeiriodd SS at y Byrddau Cyngori'r Cynllun sydd wedi'u sefydlu yn Lloegr a dywedodd fod ad-daliadau teithio wedi'u cynnwys yng nghostau'r Bwrdd gan fod aelodau yn mynychu i gynrychioli aelodau'r cynllun ac nid sefydliadau unigol. Holodd LA a allai Llywodraeth y DU ad-dalu'r costau drwy'r gronfa symiau pensiwn atodol a holodd a ddylai Rheoliadau 2015 gynnwys cyfeiriad at y costau fel sy'n digwydd gyda'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd MP yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio dull cyson a gofynnodd i Lywodraeth Cymru ofyn am eglurder pellach ar sut y byddai'r costau'n cael eu talu.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i egluro'r sefyllfa gyda'r Swyddfa Gartref.

7. Ailystyriwyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd ar gais SS. Awgrymodd SS y diwygiadau canlynol:-

- Gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n bresennol fel aelodau a'r rhai sy'n bresennol fel arsylwyr, gan nodi nad yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn Aelodau o'r Bwrdd.
- Gwneud newidiadau i eiriad yr adran ar 'ddiben y Bwrdd' i adlewyrchu Rheoliadau 2015 yn gywir.
- Cylch Gorchwyl i egluro y bydd y Cadeirydd yn penodi pobl ar gyfer y Bwrdd gyda chytundeb aelodau'r Bwrdd, fel y nodir yn y Rheoliadau.

Mynegodd SS bryder fod LA yn cynrychioli nifer o sefydliadau gan y gellid ystyried hynny fel achos o wrthdaro buddiannau; yn enwedig pan fydd angen pleidleisio ar

faterion fel goblygiadau terfyn costau. Eglurodd LA na ddylai hyn achosi problemau gan y byddai unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Gweinidog yn adlewyrchu safbwyntiau llawn aelodau'r bwrdd. Roedd MP yn cytuno â barn LA a chadarnhaodd eu bod wedi cytuno yn y cyfarfod diwethaf y byddai'r holl gyngor gan y Bwrdd yn cynnwys unrhyw safbwyntiau gwahanol ymysg aelodau, yn hytrach na chyflwyno system bleidleisio. Roedd angen i'r cylch gorchwyl adlewyrchu'r safbwynt hwn. Gofynnodd SJ am gael platiau enwau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol fel bod aelodau yn gwybod pa sefydliadau a oedd yn cael eu cynrychioli.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i wneud platiau enwau i'w defnyddio mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

8. Holodd SS ynglŷn â'r broses o gael aelodau bwrdd newydd i gymryd lle eraill. Cadarnhaodd SP fod aelodau'r Bwrdd yn cynrychioli'r sefydliadau dan sylw. Dywedodd SS a GM eu bod wedi derbyn llythyrau penodi personol gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Trafododd aelodau'r Bwrdd lefel yr arbenigedd oedd yn ofynnol er mwyn cynrychioli eu sefydliadau a chyfeiriwyd at y penderfyniad na allai aelod bwrdd pensiwn lleol eistedd ar Fwrdd Cynghori'r Cynllun. Cwestiynodd SS y sefyllfa hon ac awgrymodd fod aelod yn gallu cynrychioli sefydliad ar y naill fwrdd a'r llall ar fyrddau eraill.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i wirio'r llythyrau penodi a anfonwyd at aelodau'r Bwrdd.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i egluro sefyllfa cynrychiolaeth aelodau ar fwrdd cynghori'r cynllun a'r bwrdd pensiwn lleol.

EITEM 4 AR YR AGENDA – CYNLLUN PENSIWN DIFFODDWYR TÂN – TREFNIADAU TROSLWYDDO (FPSABW (16)02)

9. Eglurodd MP fod yr eitem ar yr agenda wedi'i chyflwyno gan Undeb y Brigadau Tân a gwahoddwyd SS i gyflwyno'r papur. Eglurodd SS fod gan aelodau Cynllun 2015 yr opsiwn i ymddeol yn rhannol gan eu galluogi i dderbyn rhan o'u buddion pensiwn yn 55 oed a pharhau mewn cyflogaeth. Ar y llaw arall, roedd yn rhaid i aelodau'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Newydd (2007) ymddeol yn llawn o'r cynllun cyn iddynt allu derbyn unrhyw fuddion. Roedd rhai aelodau o gynllun 2007 am drosglwyddo eu pensiynau i gynllun 2015, ond nid oedd cynllun 2015 yn eu gadael i wneud hynny. Dywedodd SS fod Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi cynghori Undeb y Brigadau Tân y byddai'r broses yn niwtral o ran costau drwy ddefnyddio Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod. Dywedodd SS fod y Swyddfa Gartref wedi cytuno yn y lle cyntaf i ystyried yr opsiwn ond wedi gwrthod y cynnig ers hynny, tra bod Llywodraeth yr Alban wedi awgrymu y gallai ailysgrifennu rhan o'u Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Newydd i ganiatáu i aelodau ymddeol yn rhannol fod yn opsiwn haws. Holodd MP faint o ddiffoddwyr tân Cynllun 2007 oedd yn dymuno trosglwyddo i Gynllun 2015. Credai SS y byddai'r nifer yn gymharol isel ond cytunodd i ymchwilio ymhellach. Cytunodd SS hefyd i rannu unrhyw wybodaeth am gostau gyda swyddogion.

CAM GWEITHREDU: SS i ddarparu gwybodaeth am nifer y diffoddwyr tân sy'n perthyn i Gynllun 2007 sydd â diddordeb mewn trosglwyddo i Gynllun 2015, a chynghor Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gostau.

10. Mynegodd DD bryderon am y baich ychwanegol y gallai newid o'r fath ei roi ar weinyddwyr cynlluniau. Eglurodd SS y byddai'r newid yn gwneud pethau'n haws yn yr hirdymor gan y byddai mwy o ddiffoddwyr tân yn perthyn i'r un cynllun.

11. Cwestiynodd LA y penderfyniad a wnaed gan y Swyddfa Gartref. Credai SS fod y Swyddfa Gartref wedi holi Trysorlys EM ond eu bod wedi anghytuno y dylid gwneud y newid.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ystyried a ddylid cynnwys y cynnig o fewn yr ymarferiad ehangach o ddiwygio'r cynllun.

12. Cyflwynodd SS ail elfen FPSABW (16)02) a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Pensiwn wedi'i Addasu. Roedd y cynllun hwn yn addasu Gorchymyn 2007 i ganiatáu diffoddwyr System ar Ddyletswydd yn ôl Galw, a gyflogwyd rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2005 i gael manteisio ar gynllun pensiwn. Fe'i cyflwynwyd yn 2014 a darparodd fuddion pensiwn tebyg i'r rhai a ddarparwyd o dan Gynllun Pensiwn 1992.

13. Eglurodd SS fod Undeb y Brigadau Tân wedi ennill achos llys i alluogi Diffoddwyr Tân wrth Gefn i ymuno â'r Cynllun wedi'i Addasu yn ôl-weithredol i 1 Gorffennaf 2000. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i Ddiffoddwyr Tân wrth Gefn ôl-dalu cyfraniadau i'r Cynllun wedi'i Addasu. Pan gyflwynwyd Cynllun 2007, cafodd Diffoddwyr Tân wrth Gefn yr opsiwn i drosglwyddo eu pensiwn galwedigaethol blaenorol i Gynllun 2007, ond dewisodd rhai beidio â gwneud hynny. Yn sgil telerau mwy ffafriol y Cynllun wedi'i Addasu, mae rhai Diffoddwyr Tân wrth Gefn am drosglwyddo eu pensïynau galwedigaethol blaenorol i'r Cynllun wedi'i Addasu, ond nid ydynt yn gallu gwneud hynny gan eu bod wedi gwrthod y cynnig yn flaenorol i drosglwyddo i Gynllun 2007. Eglurodd SS fod y mater yn effeithio ar fwy o Ddiffoddwyr Tân na'r mater cyntaf a gyflwynwyd ym mhwynt 9.

14. Holodd MP am y costau i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Eglurodd SS y byddai hyn hefyd yn broses Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod; ond byddai'n ymddangos fel cost gwasanaeth yn y gorffennol. Byddai Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ei nodi fel cost gwasanaeth yn y gorffennol gan ei fod yn newid na ellid ei ragweld ar yr adeg y gwnaed y prisiant. Yn wahanol i'r cynnig mewn perthynas â Chynllun 2015, byddai gan hyn oblygiadau o ran costau.

15. Holodd DD a fyddai hyn yn berthnasol i gyflogwyr presennol neu gyflogwyr blaenorol diffoddwyr tân wrth Gefn. Eglurodd SS y byddai hyn yn cael ei gyfeirio at y cyflogwyr presennol gan y gallai diffoddwyr tân ond trosglwyddo eu pensïynau o fewn y flwyddyn gyntaf ers ymuno â'r cynllun. Dywedodd SP ei bod yn debygol y byddai hyn yn effeithio'n bennaf ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gogledd Cymru gan fod y rhan fwyaf o Ddiffoddwyr Tân wrth Gefn wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hynny; fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol gwybod ar bwy y byddai hyn yn effeithio. Dywedodd SS y byddai Undeb y Brigadau Tân yn ysgrifennu at y Gweinidog i drafod hyn.

EITEM 5 AR YR AGENDA – NORMAN V CHESHIRE (FPSABW (16) 03)

16. Eglurodd MP fod yr eitem hon ar yr agenda wedi'i chyflwyno gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a gwahoddodd DD i gyflwyno'r papur. Eglurodd DD fod y mater yn ymwneud â'r achos cyfreithiol *Norman v Cheshire* a oedd yn delio â mater cyflog pensiynadwy a'r dehongliad o Reol G1 o Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992. Roedd y diffoddwr tân llawn amser, a oedd hefyd yn gweithio fel diffoddwyr tân wrth gefn, wedi dadlau bod rhan o'i daliadau (ffi gadw, ffi aflonyddu a thâl gwyliau cyhoeddus) yn bensiynadwy. Dyfarnwyd o blaid yr hawlydd gan ddod i'r casgliad bod y pecyn tâl (ar sail cytundeb rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer ac Undeb y Brigadau Tân) yn bensiynadwy o dan y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (1992).

17. Cyfeiriodd DD at y cyngor a ddarparwyd gan Christopher Jeans QC ar ôl y dyfarniad yn *Norman* a gadarnhaodd y byddai premiwm yn cyfateb i dâl pensiynadwy o dan y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân pe bai:

- yn rheolaidd
- yn dâl y mae gan y diffoddwr tân hawl iddo (o dan y contract cyflogaeth)
- yn daladwy ar y gyfradd sy'n gymwys i'r rôl
- yn cael ei dalu fel rhan arferol o gyflawni ei ddyletswyddau
- o natur barhaol i ryw raddau.

18. Eglurodd DD fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn adolygu eu trefniadau yn sgil y dyfarniad. Roedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi datgan nad oedd ganddynt unrhyw weithwyr cyflogedig y byddai'r dyfarniad hwn yn effeithio arnynt. Roedd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oddeutu 84 o weithwyr cyflogedig y byddai'r newid yn effeithio arnynt. Byddai costau blwydd-daliadau cyflogwyr oddeutu £312,000 ar sail gweithredu'r newid yn ôl-weithredol o 1 Gorffennaf 2016 a thrin ffioedd cadw, ffioedd aflonyddu a thaliadau gwyliau banc fel rhai pensiynadwy. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wrthi'n pennu pa lwfansau a fyddai'n bensiynadwy. Roedd hyn yn cael ei drafod mewn pwyllgorau.

19. Dywedodd DD ei bod wedi dwyn y mater i sylw'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r diffiniadau o dâl pensiynadwy. Gan fod y dehongliad yn cael ei herio ar hyn o bryd, cynigiwyd na ddylai unrhyw Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru gymryd camau tan i eglurder gael ei roi ynglŷn â'r hyn y dylid eu hystyried fel elfennau tâl pensiynadwy.

20. Roedd DD yn amharod i ymrwymo i ddehongliad penodol heb sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fyddai'n herio penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub. Cadarnhaodd SP fod y rhain yn faterion ar gyfer yr Awdurdodau fel cyflogwyr; ac er y byddai Llywodraeth Cymru o blaid symudiadau tuag at safbwynt cyffredin, ni allai ac ni fyddai'n llunio ei barn ei hun ar beth yn union ddylai'r safbwynt hwnnw fod.

21. Eglurodd SS ymhellach fod Gwasanaeth Tân Swydd Gaer wedi cyflwyno system criw dydd a mwy a oedd yn darparu lwfans ar gyfer hunan-restru drwy'r nos.

Ar y pryd, roedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi dweud wrth y Diffoddwr Tân bod yr enillion yn bensiynadwy wrth ymddeol; ymyrrodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gan ddweud nad oedd hyn yn wir. Roedd Undeb y Brigadau Tân wedi gweithredu ar ran y diffoddwr tân ac wedi'i herio. Credai SS ei bod yn amherthnasol pa gytundeb a oedd wedi'i wneud yn lleol; os oedd yr enillion yn bensiynadwy, yna dyna ddiwedd y mater. Cyfeiriodd SS at y diffiniadau fel y'u rhestrwyd ym mhwynt 17 a holodd fwriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ganolbwyntio ar ffioedd cadw, ffioedd aflonyddu a thaliadau gwyliau cyhoeddus. Dywedodd SS nad oedd yn rhaid i'r taliadau fod yn rhai parhaol i gael eu hystyried yn rhai pensiynadwy a chadarnhaodd y dyfarniad y dylent fod yn daliadau rheolaidd ac nid yn rhai 'untro' o ran eu natur. Ychwanegodd GM fod lwfans hyfforddiant yn cael ei ddosbarthu fel taliad rheolaidd ac y gellid herio'r Awdurdod Tân ac Achub os nad oeddynt yn cynnwys yr elfen hon. Dywedodd SS y byddai hyn yn cael effaith ar gostau'r cynllun ar wasanaeth yn y gorffennol.

22. Mynegodd DD bryder na fyddai rhai diffoddwyr tân am i elfennau o'u tâl fod yn bensiynadwy. Cytunodd SS; byddai rhai diffoddwyr tân yn bryderus am y cynnydd yn y cyfraniadau a oedd ganddynt i'w talu yn ôl i'r cynllun. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i ddiffoddwyr tân gydymffurfio â'r dyfarniad yn union fel Awdurdodau Tân ac Achub. Ychwanegodd LA y byddai'r mater, gan gynnwys costau ac amseriadau, yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd.

CAM GWEITHREDU: LA i roi'r diweddaraaf ar achos Norman v Cheshire ar ôl trafod y mater mewn cyfarfodydd negydu.

23. Cadarnhaodd SJ nad oedd gweithwyr cyflogedig Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael eu heffeithio gan y dyfarniad, gan fod ei holl ddiffoddwyr tân wrth gefn yn derbyn cyflog. Dywedodd SS y gallai'r sefyllfa newid pe bai lwfansau hyfforddiant yn cael eu hymgorffori. Gofynnodd SJ am i wybodaeth o ddiddordeb gael ei hanfon at aelodau Bwrdd rhwng cyfarfodydd.

EITEM 6 AR YR AGENDA – DIWEDDARIADAU GAN FYRDDAU PENSIWN LLEOL

24. Diolchodd MP i Aelodau'r Bwrdd am gyflwyno diweddariadau gan bob un o'u Byrddau Pensiwn Lleol perthnasol. Dywedodd MP fod Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi edrych ar y gwaith o weinyddu a swyddogaethau'r holl Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân ac argymhellodd fod Awdurdodau Tân ac Achub eraill yw gwneud yr un fath. Awgrymodd LA y gallai Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Cymru fod wedi darparu mwy o wybodaeth yn unol â'r diweddariad a gyflwynwyd gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Cytunodd DD fod yr un peth yn berthnasol i'r diweddariad ar gyfer Gogledd Cymru. At ddibenion cysondeb, awgrymodd LA y dylid cynnal sesiwn cynllunio ar y cyd rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub cyn cyflwyno'r diweddariadau i Lywodraeth Cymru.

CAM GWEITHREDU – Awdurdodau Tân ac Achub i drafod dull ar y cyd i gyflwyno diweddariadau yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyngori'r Cynllun yn y dyfodol.

EITEM 7 AR YR AGENDA – DYSGU GENERIG

25. Gwahoddodd MP aelodau i grybwyll unrhyw wybodaeth oedd ganddynt i'w rhannu. Dywedodd LA fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Cymru wedi cwblhau dadansoddiad hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a Bwrdd Cynghori'r Cynllun ac roeddynt yn cyflawni'r hyfforddiant pecyn cymorth gyda'i gilydd. Awgrymodd LA y gellid cwblhau elfennau o'r hyfforddiant drwy ddefnyddio dull tri gwasanaeth. Cytunodd MP a dywedodd y gallai fod angen cynnal sesiwn hyfforddi ar ôl yr etholiadau lleol pe bai newid mewn aelodaeth.

EITEM 8 AR YR AGENDA – DIWYGIADAU POSIBL I'R CYNLLUN

26. Cyflwynodd KC yr eitem a thrafodd bob un o'r diwygiadau arfaethedig yn eu tro.

27. **Gwahaniaethu ar sail Oedran (Gwyliau Cyfraniadau Pensiwn)** - roedd hyn yn ymwneud â diffoddwyr tân a oedd wedi dechrau talu cyfraniadau yn 18 oed a'u bod angen talu'r cyfraniadau hynny tan eu bod yn 50 oed. Fodd bynnag, roedd gan gynllun pensiwn Diffoddwyr Tân 1992 derfyn croniadol o 30 mlynedd, felly roedd rhai diffoddwyr tân wedi cyfrannu dwy flynedd ychwanegol am ddim yn ôl. Eglurodd KC bod yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, sef y Swyddfa Gartref bellach, wedi penderfynu ym mis Rhagfyr 2015 i ystyried talu iawndal i aelodau a oedd wedi'u heffeithio gan yr anghysondeb. Ar hyn o bryd roedd Llywodraeth Cymru yn aros am ddiweddariad gan y Swyddfa Gartref ar sut roeddynt yn bwriadu delio â'r mater hwn. Dywedodd SS wrth y Bwrdd ei fod wedi cyfarfod y Swyddfa Gartref yn ddiweddar a'u bod wedi dweud y byddai diweddariad yn cael ei anfon i Undeb y Brigadau Tân maes o law. Ychwanegodd SS y byddai'r taliadau yn ôl-weithredol i 1 Rhagfyr 2006.

28. **Diwygiadau i Reoliadau Cynllun 2015** – Ers cyflwyno Cynllun 2015, mae nifer o fân broblemau wedi'u nodi a fyddai angen eu diwygio. Roedd yn debygol y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygiadau tebyg fel y'u rhestrwyd yn ymgynghoriad diweddar y Swyddfa Gartref, ynghyd â rhai mân ddiwygiadau argraffyddol a nodwyd gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru. Mae'n debyg y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn yr hydref gyda'r diwygiadau'n dod i rym yn 2017.

29. Eglurodd KC fod nifer o ddiwygiadau a oedd yn ymwneud ag aelodau a oedd yn trosglwyddo, a oedd yn cynnwys:-

- Ychwanegu rheoliad a gafodd ei hepgor yn anfwriadol i roi'r rhyddid i "aelodau trosglwyddo" a gafodd bensiwn salwch mewn perthynas â'u cynllun cyflog terfynol, i ohirio rhan o'r pensiwn hwnnw a'i gael fel cyfandaliad (Rheoliad 80A).
- Mynd i'r afael â chymhlethdodau o ran amseru sy'n codi wrth i aelodau trosglwyddo gyrraedd eu cyfnod trosglwyddo ar adeg pan oeddynt yn cael eu hystyried am ymddeoliad salwch. Roedd achosion aelodau y gwrthodwyd salwch iddynt wedi'u datrys, ond roedd angen darpariaeth i ymdrin ag aelodau a gafodd ymddeoliad salwch (Atodlen 2, paragraffau 37 a 38).

- Cywiro'r fformiwla ar gyfer y cyfrifiad croniad-dwbl yn Rheoliadau Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol 2015 (Atodlen 2 Gorchymyn 1992, Rhan 2A).
- Sicrhau mai ar ôl tri mis y byddai rhywun yn "cymhwyso" (yn hytrach na "mwy na thri mis") (Rheoliad 87).

30. **Newid mewn Rheoliad mewn cysylltiad â hawl partneriaid sy'n fyw i fudd-dal marwolaeth wrth ailbriodi** - roedd y mater hwn yn ymwneud â Chynllun 1992 lle byddai partner sy'n fyw yn colli eu hawl i fudd-dal marwolaeth wrth ailbriodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd. Dywedodd KC fod Llywodraeth yr Alban wedi diwygio Gorchymyn 1992 a'r Gorchymyn Cynllun lawndal ers y cyfarfod diwethaf, a ddaeth i rym o 1 Hydref 2015. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu adfer buddion pensiwn a oedd wedi'u tynnu'n ôl yn flaenorol. Ar hyn o bryd roedd y Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar y cynnig i ddatrys y sefyllfa. Yn wahanol i'r Alban, roedd y Swyddfa Gartref yn cynnig ôl-ddyddio'r taliadau i Ebrill 2015 yn unol â chyhoeddiad y Canghellor, ond nid oedd yn cynnig adfer buddion partneriaid sy'n fyw a oedd eisoes wedi'u tynnu'n ôl. Roedd Llywodraeth Gymru yn debygol o gynnwys opsiynau amrywiol yn yr ymgynghoriad i gael syniad o'r safbwynt cyffredinol cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith.

31. Dywedodd SS wrth y Bwrdd fod Undeb y Brigadau Tân wrthi'n ceisio cyngor cyfreithiol ar y mater hwn a bod elfen o wahaniaethu ar sail oedran - gallai person ifanc fod yn fwy tebygol o ailbriodi. Holodd DD ac LA am y diffiniad o "yn rhinwedd eu swydd". Eglurodd SP fod diffiniadau amrywiol gyda sawl elfen sy'n achosi dryswch; ac nid a oedd rhywun yn cael ei ladd yn rhinwedd ei swydd oedd y broblem, ond beth oedd yn digwydd i'r budd-dal a oedd daladwy i'w priod neu bartner ar y pryd. Awgrymodd SS y gallai peidio â thynnu'n ôl unrhyw bensiwn gan unrhyw bartner sy'n fyw p'run a oedd y person yn marw yn rhinwedd ei swydd ai peidio fod yn ateb posibl i'r broblem. Holodd SJ a oedd hyn yn cynnwys partneriaid sy'n fyw a oedd yn cyd-fyw. Eglurodd SP fod y mater yn ymwneud â phartneriaid sy'n fyw a oedd wedi ailbriodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd; ni fyddai'n effeithio ar y rhai sy'n cyd-fyw. Byddai amseriadau'r ymgynghoriad yr un fath â'r Diwygiadau i Gynllun 2015.

32. **Cynllun Pensiwn wedi'i Addasu (Grant Marwolaeth)** – eglurodd KC fod y Cynllun Pensiwn wedi'i Addasu yn cwmpasu'r cyfnod 1 Gorffennaf 2000 i 5 Ebrill 2006. Daeth y Cynllun i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2007, ond fe'i gweithredwyd yn ôl-weithredol i fod mewn grym ers Ebrill 2006, yn unol â'r cynllun yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o broblem mewn perthynas â'r Cynllun o ran y cymhwyster ar gyfer grant marwolaeth. Mae'n debyg i'r anghysondeb ond effeithio ar un person yng Nghymru, ond roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid diwygio cyfnod cyfyngedig y grant marwolaeth i 6 Ebrill 2007 ar gyfer Cymru.

33. Eglurodd KC i'r Bwrdd bod trafodaethau cynnar wedi'u cynnal ag Adran Gyfreithiol Llywodraeth Cymru ac y byddai cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ar ôl yr etholiad. Dywedodd KC y byddai Aelodau'r Bwrdd yn cael rhybudd ymlaen llaw cyn cynnal yr ymgynghoriad.

EITEM 9 AR YR AGENDA – UNRHYW FATER ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

34. Dywedodd SP fod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth o bryd i'w gilydd ar ran Llywodraeth y DU lle'r oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân a hawliau aelodau'r cynllun. Yn ddiweddar, roedd nifer o ddiweddariadau generig wedi bod gan Lywodraeth y DU, er enghraifft, mewn perthynas â threthu a budd-daliadau. Gan nad oedd y materion hyn wedi'u datganoli, ni allai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth neu gyngor arnynt. Dywedodd SP wrth aelodau am sicrhau eu bod yn derbyn deunydd cyfathrebu gan sefydliadau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Thrysorlys EM.

35. Rhannodd KC amserlen werthuso mwy manwl ar gyfer 2016 a oedd wedi'i darparu gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Cyfeiriodd KC at gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2015 lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai adroddiad ar Gronfa Terfyn Costau Gwerth Ymlaen Llaw yn cael ei ddarparu erbyn mis Hydref 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro hyn i Adran Actiwari'r Llywodraeth a gan y byddai hwn yn adroddiad a fyddai'n gysylltiedig ag Adroddiad Prisiad yr Actiwari 2016, ni fyddai'n derfynol nac yn cael ei ddosbarthu tan 2017. Dywedodd MP y byddai Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cael ei gwahodd i gyfarfod y Bwrdd yn 2017.

36. Tynnodd KC sylw'r aelodau at Gyfradd Ddisgownt SCAPE a oedd wedi'i ostwng o 3% yn uwch na CPI y flwyddyn i 2.8% yn uwch na CPI y flwyddyn fel rhan o gyhoeddiadau'r gyllideb. Roedd y newid yn effeithio ar nifer o ffactorau gohiriedig. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac wedi diwygio ffactorau o dan gylchlythyr W-FRSC(2016)04. Roedd disgwyl y byddai cylchlythyr pellach yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2016.

37. Diolchodd MP i aelodau am gyfarfod defnyddiol ac awgrymodd fod y Bwrdd yn cyfarfod eto ym mis Medi.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i holi pryd mae aelodau ar gael a chadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.